

Papur Pawb

Pris: 50c

Mehefin 2012

Rhif 380



Ellen ap Gwynn

tud 3
Pobl a Phethetud 4/5/8 a 9
Ysgoliontud 11
Y Gair Olaftud 12
Chwaraeon

Arweinydd newydd y Cyngor

A hithau bron heb gyfle i gael ei gwynt ati ar ôl cael ei hailethol yn Gynghorydd Sir dros ward Ceulanamaesmawr ddechrau mis Mai, daeth cyfrifoldebau newydd ar ysgwyddau Ellen ap Gwynn yn sgil ei hethol yn arweinydd Cyngor Sir Ceredigion. Yng nghanol prysurdeb wythnos pan oedd wedi cyhoeddi enwau aelodau ei Chabinet, a phan oedd llygad y byd ar Geredigion yn ystod taith y Ffagl Olympaidd drwy'r sir, bu gohebydd y papur yn sgwrsio â hi am her ei swydd newydd.

Gan fod ganddi flynyddoedd lawer o brofiad o wasanaethu fel cynghorydd sir a chymuned erbyn hyn, a phrofiad o bedair blynedd fel arweinydd Plaid Cymru ar y Cyngor, does ryfedd ei bod mor

ymlaciadig wrth sgwrsio am ei dyletswyddau newydd. Mae'n amlwg ei bod yn edrych ymlaen am fynd i'r afael â'r her o redeg y Cyngor, er gwaethaf y toriadau llym yng nghyllidebau'r cynghorau sir yng Nghymru. Bydd y gostyngiad o 40% yn yr arian cyfalaf a ddaw i Gymru oherwydd toriadau Llywodraeth y Glymblaid yn Llundain yn golygu y bydd yn rhaid chwilio am ffyrdd mwy effeithiol o gynnig gwasanaethau'n lleol. Dyna pam mai'r peth cyntaf a wnaeth fel arweinydd oedd ailstrwythuro adrannau a chyfrifoldebau aelodau'r Cabinet er mwyn gallu gwella effeithiolrwydd y Cyngor a gwarchod gwasanaethau rheng flaen, sef y math o wasanaethau sy'n bwysig i'r cyhoedd.

Parhad tud 6

O'r diwedd ...

Stori tud 5



Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com Cysyllter â golygyddion y mis	(01970) 832560
Tynnu lluniau:		
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais	832592 832438 832483 832498 832566 832230 832429 (01654) 781260 (01654) 781312
Maes-y-deri:		
Parsel Henlllys:		
Bont-goch:		
Tre Taliesin:		
Tre'r-ddôl:		
Eglwysfach/Ffwrnais:		
Cadeirydd:	Geraint Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont	832433
Is-gadeirydd:	Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Ysgrifennydd:	Siân Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont	832433
Trysorydd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Tanysgriadau:	Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Hysbysebion:	Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais	(01654) 781312
Plygu'r Papur:	Gwenllian Parry-Jones; Tegwen Jones	
Dosbarthwyr:	Enid Gruffudd; Susan Lewis; Gwenllian Parry-Jones	

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru – Bwrdd y Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Cymorth Cristnogol Tal-y-bont

Dymuna Pwyllgor Cymorth Cristnogol Tal-y-bont â'r cych, ddiolch i drigolion yr ardal gyfan am eu croeso i'r casglwyr â fu o gwmpas eleni eto, ac am eu rhoddion i'r elusen sydd mor deilwng. Hefyd diolch i'r casglwyr i gyd am roi o'u hamser a phetrol. Nid yw yn hawdd pan fydd eisiau galw ddwywaith neu dair.

Dyma'r manylion:

Ardal Bontgoch (Geraint Evans)	£88.89
Maesyderi (Helen Jones a Lyn Ebeneser)	£94.83
Penlon ar Ffald (Delyth a Bledwyn Huws)	£141.31
Pensarn a Cwm Ceulan (Gwilym Jenkins)	£94.63
Pentref Tal-y-bont (Myfanwy James)	£141.53
Ardal Cynnullmawr (David Nutting)	£127.21
Stryd y Capel (Falyri Jenkins)	£163.06
Gwaclod y Pentref (Lisa Tomos)	£155.38
Parsel Henlllys (Wendy Watkin a Janet Jones)	£60.93
Cyfanswm	£1067.93

Mathew Davies Plymio a Gwresogi

07964 124 457 ar gael 24 awr
hefyd gwaith teilio
Nwy • Olew • Tanwydd Solet • Solar

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

RHAGHYSBYSIAD EGLWYS DEWI SANT, TAL-Y-BONT

Cynhelir Bore Coffi

ar
fore Sadwrn, 22 Medi
rhwng 10.30 – 12.00
yn y Neuadd Goffa, Tal-y-bont
Manylion pellach yn rhifyn
Mis Medi

Tŷ ar werth

3 stafell wely, 3 stafell
dderbyn, cegin, stafell
gadw, man parcio a gardd
fawr, gwresogi canolog.
£163,950 - Talybont
Cysyllter a Dafydd Prys
07733 102775

EGLWYS ST. PEDR, ELERCH GWIN, CAWS A CHÂN

Côr Meibion Dyfi Ensemble Taro Tant

Ysgol Penrhyn-coch
Nos Wener, 29 Mehefin 2012
7-00 PM.
Mynediad: £6.00
Plant: £1.50
Croeso i Bawb

CYMDEITHAS PAPUR PAWB Cyfarfod Blynnyddol

Neuadd Goffa, Tal-y-bont
Nos Iau 21 Mehefin 2012
am 8.00 pm
CROESO I BAWB

Dyddiadur

Mehefin

- 10 Bethel 5 Gweinidog
Nasareth
Rehoboth 10 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun
Bendigaid
- 17 Bethel Undebol yn Soar
Nasareth 2 Eifion Roberts
Rehoboth 2 Adrian Williams
Eglwys Dewi Sant 11 Boreol
Weddi
- 18 Merched y Wawr
Taith i Dal-y-llyn i ymweld a
Chanolfan Treftadaeth
Ystradgwyn
(Hanes yr ardal a'r capel gyda
Marian Rees)
- 21 Sefydliad y Merched Ymweld a
Gardd Ceredigion Bethania
- 24 Bethel 10 Parch Ifan Mason
Davies
Nasareth 5 Bugail
Rehoboth 10 Gwyn Davies
Eglwys Dewi Sant 11
Gwasanaeth Deuluol
- 29 Clwb Nos Wener 7.30 Gwesty'r
Llew Du
Bywd a Chabare gyda
Tudur Owen
Tocynnau £20 gan
Fal 01970 832560

Gorffennaf

- 1 Bethel 5 Gweinidog (C)
Nasareth 10 Bugail (C)
Rehoboth 5 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun
Bendigaid
Bethesda, Tynant 2 (Ysgol Sul
Bethel)
- 8 Bethel 10 Gweinidog
Nasareth 10 Rhidian Griffiths
Rehoboth Oedfa'r Ofalaeth
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun
Bendigaid
- 15 Bethel 2 Gweinidog
Nasareth
Rehoboth 10 Huw Roderick
- 19 Sefydliad y Merched
Prosiect 'Mor-Eryr'

Gwesty'r Llew Du Black Lion Hotel

Talybont, Ceredigion, SY24 5ER

Bwyty a Bar Newydd!

Cinio 12 - 2.30
Dau gws am £10 y person
Mercher i Sadwrn

Swper Nos 6 - 9
Mawrth i Sadwrn

Cinio Sul 12 - 3
Prydau o £9

Galwch heibio!

01970 832 555
www.gwestyllewdi.com

Fasech chi'n hoffi byw am ddim yn Llundun am dri mis? Ry'n ni angen help nos a bore gyda dwy ferch fach 3 ac 1 mlywdd oed. Fe fydded' dydd yn rhydd i gymryd swydd, gneud *internship* neu i fwynhau bod yn Llundun. Ry'n ni'n chwilio am berson dwy ieithog, dros 20 mlywdd oed fase'n rhydd rhwng mis Medi a mis Rhagfyr. Os oes diddordeb gennych chi anfonwch ebost i tomos.grace@gmail.com
Fy nghyfeiriad yw 26 Shakespeare Rd, London SE24 0LB
Gyda diolch, Tomos Grace

- 22 Bethel 10 Cwrdd Teuluol
Nasareth 5 Roger Ellis
Humphreys
Rehoboth 5 Bugail
- 29 Bethel 10 Gweinidog
Nasareth 10 M.J.Morris
Rehoboth 10 Glyn Morgan

Awst

- 5 Bethel 2 Parch J.E. Wynne Davies
Rehoboth 10 John Hughes
- 12 Bethel 10 Beti Griffiths
Rehoboth 10 Gordon McDonald
- 19 Bethel 2 Parch Irfon Evans
Rehoboth 10 Raymond Davies
- 25 Sioe Tal-y-bont
- 26 Bethel 10 Raymond Davies
Rehoboth 2 Beti Griffiths

Medi

- 1 Sioe Llangynfelyn
- 2 Bethel 5 Gweinidog
Nasareth 10 Bugail
Rehoboth 2 Bugail
- 9 Bethel 10 Teuluol
Nasareth 10 Glyn Morgan
Rehoboth 5 Bugail (C)

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn dyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.



Golygyddion y rhifyn hwn oedd Mair a Beryl, gyda Ceri'n dilynion. Golygyddion mis Medi fydd Gwyn a Fal (01970 832560; golygydd@papurpawb.com)
Y dyddiad olaf i dderbyn newyddion fydd dydd Gwener 7 Medi, a bydd y papur ar werth ar 14 Medi.

loga

Neuadd Goffa, Tal-y-bont,
Nos Fawrth am 7.30 - 9.00.
Pris £5.00
Cysylltwch a
Sue Jones-Davies
01970 624658

Diolch

Diolch yn fawr i Wyn Benjamin a Martin James am fod yn reolwyr a hyfforddwyr pêl-droed gwydros dros y flwyddyn. Diolch hefyd am ein cael i'r gêm gwpan derfynol dydd Sadwrn 5ed Mai, gan guro Bow Street 1-0. Roedd yn ddiwrnod ffantastig a diolch am y bwyd yn y Llew Gwyn ar ôl y gêm. Yn edrych ymlaen am y tymor nesaf.
Gyda diolch, *Tomos Jenkins.*

Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Gerwyn Breeze a Menna Morgan, 4 Dôl Pistyll, Tal-y-bont ar enedigaeth Tomos Morgan ar y 1af o Fehefin ac i Sue James, 72 Maes-y-deri, Tal-y-bont ar enedigaeth Teagan Efa ar y 3ydd o Fehefin, chwaer fach i Carys, Mary a Tranter.

Croeso i Dal-y-bont

Croeso i Lucy Thomas, sydd wedi ymgyrtrefu ym Maesglas, Tal-y-bont. Mae Lucy yn Swyddog Grantiau yn y Cyngor Llyfrau yn Aberystwyth. Llongyfarchiadau iddi hefyd ar gwblhau taith gerdded anhygoel yn ddiweddar er mwyn codi arian at achosion da. Llwyddodd i ddringo mynyddoedd uchaf Cymru, yr Alban a Lloegr (sef yr Wyddfa, Ben Nevis a Scafell Pike) i gyd o fewn pedair awr ar hugain.

Dymuniadau da


Dymuniadau da i Enid Williams, gynt o Fryn Tirion, Tre Taliesin, sydd yn Ysbyty Bronglais ar hyn o bryd.

Calon, Catrin MS Davies

Mae gwneud rhaglenni i radio a theledu yn waith pleserus iawn a dwi wrth fy modd yn gweithio ar brosiectau gwahanol. Yr hyn sydd ddim yn blesur o unrhyw fath yw cael darlledwr i brynu eich syniadau. Rwy'n treulio llawer o amser yn anfon syniadau at y BBC ac ar S4C ac yn derbyn atebion negyddol! Felly roedd hi'n braf clywed ein bod ni wedi cael comisiwn i wneud deg ffilm ar gyfer y gyfres Calon ar S4C ac yn gallu ymdrin ag amrywiaeth o bynciau. Mae tair wedi eu darlledu eisoes, dwy i ddod ym mis Mehefin a phump arall ym mis Gorffennaf. Mae'r pynciau yn amrywio o betgwn cyfoes i Stad yr Hafod, o Lapis Lazuli i ffotograffiaeth. Y mae dwy ffilm o ddiddordeb penodol i Dal-y-bont sef Menywod Ruth Jên, a Dawns sef bale gyda dwy berfformwraig o'r pentre - Elan Elidyr a Lois Jones. (Mae'r ddwy ffilm yma yn dal ar wefan CLIC am sbel fach eto.)

Licris Olsorts

Llongyfarchiadau i gwmni drama Licris Olsorts ar ennill y wobwr gyntaf yng Ngŵyl Ddrama Corwen mis diwethaf a dymuniadau gorau iddynt yn yr Eisteddfod Genedlaethol.



Llun: Anthony Pugh

Priodas

Priodwyd Rhian Jones, Penlonlas, Tal-y-bont a Clive Morgan o Benparcau yn Eglwys Dewi Sant, Tal-y-bont ar 2 Mehefin 2012. Cynhaliwyd y wledydd yng Ngwesty'r Marine a threuliwyd y Mis Mêl yn Nhwrci.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Glain Davies, Tŷ Gwyn, Tal-y-bont a gafodd y 3edd wobwr am lefaru a'i chwaer Miriam hefyd yn derbyn y 3edd wobwr am ganu a llefaru yn Eisteddfod Gŵyl Fai y Bont.

Y Fflam Olympaidd

Cymerwyd rhan yn yr adloniant yn Aberystwyth ar 27/5/2012 gan nifer o ieuenctid Tal-y-bont, Celyn Evans, Y Dderwen; Niamh O'Brian, Cytringan; Sam Ebenezer, Maes-y-Felin; Angharad Gwyn, 1 Dôl-pistyll; Esther Ifan, Llys Alaw a Medi Evans, Neaudd Fawr.

Llwyddiant yn y sioe

Cefais hwyl yn yr Ŵyl Tyddyn a Gardd yn dangos fy ieir a hwyaid. Fe enillais wobwr am y ddangoswraig ifanc orau a llawer o wobrau eraill. Cefais hefyd llwyddiant yn sioe Amwythig pan enillais bump wobwr 1af, tri 2il ac un 3ydd. Gobeithio neith y lwc dda yma ddal ymlaen i sioe Aberystwyth.

Becca Fleming Jenkins

Genedigaeth

Croeso i Megan, chwaer i Anna Jên, a merch i Sean & Siân, Yr Hen Waith Dŵr, Bont-goch a anwyd yn Ysbyty Bronglais ar 22 Mai. Dymuniadau gorau i'r teulu cyfan.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn a Mrs Aldwyth Morgan, Maesmawr, Tal-y-bont a'r teulu ar golli gŵr, tad a thadcu Mr Jim Morgan (Maesnewydd gynt).

Yn yr ysbyty

Dymuniadau gorau i Mrs Fanw Jones, 3 Stryd Pant y Calch, Tal-y-bont sydd yn ysbyty Bronglais ar hyn o bryd.

Bedyddio

Bedyddiwyd Swyn Tirion, merch Non a Gerwyn Jones, Tŷ Ni, Tal-y-bont yn Eglwys Dewi Sant, a Hari Wyn, mab Lisa Southgate a Dafydd Williams, Dwylan, Tal-y-bont yng nghapel Rhydyfagwyr, Cnwch Coch yn ddiweddar.

Ennill gliniadur

Llongyfarchiadau i Keira Forster Brown o Eglwys Fach a enillodd liniadur am ysgrifennu stori i gylchgrawn yr R.S.P.C.A.

Cymorth Cristnogol

Cyfanswm casgliad Cymorth Cristnogol ym mhlwyf Llangynfelyn eleni oedd £122.50. Roedd y trefniadau yng ngofal Olwen Rowlands, Carys Briddon ac Owen Jenkins.

Caneuon Bys A Bawd

Dydd Mawrth, 5 Mehefin, yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd lawnsiwyd pedwerydd argraffiad o'r gyfrol 'CANEUON BYS A BAWD' gan Falyri Jenkins. Cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf, gan Fudiad Meithrin, ym 1991. I gyd-fynd â'r gyfrol mae CD yn lle'r tâp gwreiddiol ac arno clywir disgyblion 1991 Ysgol Gymunedol Tal-y-bont yn chwarae amrywiol offerynnau.

Penblwydd Arbennig

Penblwydd hapus iawn i chi Mrs Barbara Madden, Maes y Deri a fydd yn dathlu penblwydd arbennig yn ystod y mis. Mwynhewch y dathlu dramor.

Croeso

Yn dychwelyd i Dal-y-bont ar ôl gweithio am 18 mlynedd fel ymchwilydd mewn labordy yng Nghaergaint mae Lynwen James, Bryn Eglur gan fod y gwaith wedi dod i ben. Croeso iddi hi a'i phartner Paul Joseph i Rif 3, Penrhiw ac mae Lynwen yn gobeithio cael gwaith yn yr ardal yma.

Croeso hefyd i Lyn Helps a Kevin Cook sydd wedi symud i Hafod Dawel, Tal-y-bont yn ddiweddar.

Arddangosfa Gelf Artist Lleol

Yn ystod y cyfnod 21-31 Mai, cynhaliwyd Arddangosfa Myfyrwyr Uwchraddedig Ysgol Gelf Prifysgol Aberystwyth. Roedd Pete Monaghan, Maesnant, Tal-y-bont, ymhlith y rhai oedd yn arddangos eu gwaith, gyda'r gyntaf o'i arddangosfeydd MA. Ei ddewis o'r thema oedd Gorsafoedd Petrol Ceredigion, ac mae'r darluniau'n cynnwys rhai o Garej Davmor, Tal-y-bont a Garej Ystrwyth. Gellir eu gweld ar ei wefan: www.petemonaghan.com.

Ar y Prom

Mae'n siwr fod John a Christine Evans, Bryn Eleri yn falch iawn o'u hwy'r Aaron Hadfield. Cafodd llinell o waith Aaron ei ddewis fel un o 4 a fydd yn ymddangos ar y Prom yn Aberystwyth. Mae ei linell "Furious feathers synchronize with the sea" wedi ei osod mewn carreg ithfaen. Mae Aaron yn ddisgybl yn ysgol Penglais ac yn fab i Marie-Neige.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Alaw a Hywel Griffiths, Y Garth ar enedigaeth Lleucu Haf Lilian Griffiths ar y 3ydd o Fehefin.

Springwatch

Bydd y gyfres ddiweddaraf o 'Springwatch' o Warchodfa Natur Ynys-hir yn dod i ben cyn bo hir. Beth am fentro yno am dro yn ystod yr haf?

Enillwyr Rali CFFI



Liwy garu Gareth Jenkins



Elgan Evans, Cadeirydd y 'Clwb



Rhys Richards, Rhodri Richards, Elen Thomas, a Geraint Jenkins



Betsan Siencyn, Medi Evans, Dafydd Thomas a Gareth Jenkins



Elin Jones, Alaw Aur a Sara Jenkins enillwyr y gystadleuaeth Deunydd Priodas



Enillwyr y Tablo

Ysgol Tal-y-bont



Olympics



Cwis Llyfrau



Ras Beics Halfords



Alcohol Awareness



Cerddorfa

Ysgol Tal-y-Bont

Alcohol Awareness

Un diwrnod daeth dynes i'r ysgol a dywedodd ei bod o D.A.P.S i ddysgu sut i edrych ar ôl eich hun rhag cyffuriau ac alcohol. Dysgodd hi ni i beidio defnyddio pwmp asthma rhywun arall ac am units mewn alcohol. Gadawodd i ni ddefnyddio *beer goggles* sy'n gwneud i chi weld pethau fel rhywun sydd wedi meddwi roedd e'n llawer o hwyl ond yn dangos pa mor beryglus gall feddw fod!

Aled a Joel

Cerddorfa

Daeth ysgolion Tal-y-bont, Llangynfelyn a Chraig yr Wylfa i weld cerddorfa athrawon peripatetig Ceredigion yn Neuadd Goffa Tal-y-bont. Ar ddechrau'r gerddorfa chwaraeon nhw y gân Mama Mia - roedden nhw'n dda iawn ac ar y diwedd chwaraeon nhw y Flinstones. Dysgon ni am adrannau gwahanol y gerddorfa.

Heledd a Libby

Cwis Llyfrau

Llongyfarchiadau mawr i'r ddau dîm Cwis Llyfrau a fu'n cynrychioli'r ysgol yn rownd sirol y gystadleuaeth. Enillodd tîm blyneddodd 5 a 6 sef Lecci, Celyn, Bedwyr, Aled a Tomos ganmoliaeth uchel gan y beirniaid. Llwyddodd tîm blyneddodd 3 a 4 sef Glain, Heledd, Nia, Fabien, Billy, Emily, Seren a Libby ennill lle yn y rownd cenedlaethol. Da iawn bawb ar berfformiadau gwych a phob lwc i dîm blyneddodd 3 a 4 wrth iddynt gynrychioli Ceredigion yn y rownd cenedlaethol.

Guto Nyth Bran

Ar y 25ain o Fai aeth blyneddodd 3 a 4 Ysgolion Tal-y-bont a Llangynfelyn i wyllo Guto Nyth Brân gan Arad Goch yng Nghanolfan y Celfyddydau. Mwynheudd pawb achos roedd hi'n sioe ddoniol iawn. Mae'r stori yn dilyn hanes bachgen cyflymar byd - ei enw oedd Guto. Mae'r stori am fachgen o'r enw Guto sy'n hoffi mynd i ben y mynydd i chwarae gyda'i ffrindiau Defi a Shwni. Roedd yr actorion Ffion Wyn Bowen, Bethan Mai, Mari Morgan, Danny Grehan, Gethin Evans, Endaf Eynon Davies a Chris Hoskins yn dda iawn.

Nia a Glain

Olympics

Diolch yn fawr i Danielle am fod mor fodlon dod i sgwrsio â ni ar ei diwrnod mawr ac i'w theulu am eu cefnogaeth i'r digwyddiadau yn yr ysgol. Braf oedd gweld cymaint o bobl o'r gymuned yn mwynhau paned a chacen yn yr ysgol wedi i'r fflam fynd trwy'r pentref. Diolch i'r rhieni am eu cyfraniadau hael.

Ras Beics Halfords

Ar ddydd Gwener 25ain o Fai aeth Tomos, Gwydion, Dylan a Bedwyr o Ysgol Tal-y-bont i rasio yn ras beics Halfords yn Aberystwyth. Roedd rhaid mynd o gwmpas y trac dwy waith (hanner milltir i gyd). Roedd rhaid i bawb wisgo helmet a chael rhif ar y cefn. Mi wnaethon fwynhau yn fawr iawn, rydym yn gobeithio rasio blwyddyn nesaf hefyd. Da iawn fechgyn!

Bedwyr, Tomos a Dylan Wyn

Traws Gwlad

Ar ddydd Sadwrn 12fed o Fai aeth Bedwyr, Gwydion, Dylan, Tomos a Tia i redeg traws gwlad yn Blaendolau. Roedd y trac yn fil o fetrau i gyd. Roedd hi'n braf ac yn boeth iawn, ar ôl y rhedeg roedd pawb yn chwysu ac eisiau dŵr. Daeth Bedwyr yn 7fed, Gwydion yn 16eg, Dylan yn 21ain Tomos yn 32 ac yn ras y merched daeth Tia yn y pymtheg uchaf. Ar ddiwedd pob räs roedd pawb yn cael sticer, ar y sticer roedd ein safle ni. Roedd pawb wedi mynnhau ac yn gobeithio rhedeg blwyddyn nesaf hefyd. Da iawn chi!

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

Olympics

Ar ddydd Llun yr 28ain o Fai daeth y fflam Olympaidd trwy Dal-y-bont! Roedd pawb yn yr ysgol mor gyffrous. Roedd pobl wedi gwisgo lan fel pobl o wledydd gwahanol o gwmpas y byd. Roedd yna tri bws Coke a Cola, Samsung a Lloyds TSB yn mynd heibio'r ysgol cyn y fflam.

Y ddynes oedd yn rhedeg efo'r fflam oedd merch o'r enw Danielle Elizabeth Pryce, merch leol o Tal-y-bont. Ar ôl rhedeg efo fflam daeth Danielle i'r ysgol i siarad efo ni a chafon ni gyfle i ddal y fflam.

Tia a Leci

Gwahoddiad

Hoffwn eich gwahodd yn gynnes iawn i Ysgol Gymunedol Tal-y-bont ar ddydd Gwener, Gorffennaf y 6ed am 2.30 o'r gloch y prynhawn, i de parti i ddathlu cyfraniad Miss Nia Huw a Miss Manon Rhys i'r ysgol. Os ydych yn dymuno cyfrannu tuag at dysteb iddynt, yna mae'r Lolfa wedi cytuno i gasglu'r arian, neu gallwch roi'r rhodd i Margaret Jenkins yn yr ysgol. Dewch yn llw, bydd hi'n braf eich gweld.

CFFI Tal-y-bont - Y Rali

Profodd Rali Ceredigion 2012 i fod yn ddiwrnod hanesyddol i Glwb Ffermywr Ifanc Tal-y-bont. Ar ol diwrnod brwd o gystadlu ymysg aelodau'r Sir Llwyddodd Tal-y-bont i ennill y gamp eithaf, sef codi tlws ennillwyr Rali Llanwenog.

Mae'n union 20 mlynedd ers i'r Clwb ennill y Rali ddiwethaf nôl yn 1992 yn Lledrod, er iddynt golli o drwch blewyn ar lawer achlysur dros y blyneddodd. Mae'r gamp felly yn felysach fyth!

Gwesteiwyd y Rali eleni ar gaeau Fferm y Llechwedd, Brynteg, ar yr 2il o Fehefin gyda'r cystadlu yn dilyn y thema 'Priodas Fawr y CFI'.

Yng Nghystadlaeth yr Aelodau, bu Dafydd Thomas Eisteddfa a Betsan Siencyn Tanrallt yn brysyr yn paratoi 'Canapes Croeso a diod di-alcohol' yn y categori coginio gan ddod yn 4ydd, Daeth Gareth Ynyseidiol yn gyntaf yn creu 'Anrheg Penblwydd Priodas' sef cerffio llwy garu yn y categori crefft, a Medi Evans Neuaddfawr yn gosod trefniant 'Blodau Canol Bwrdd'. Daeth y tîm yn gyntaf, bydd Gareth Ynyseidiol yn mynd ymlaen i gynrychioli'r Sir yn y Sioe Frenhinol.

Daeth Rhys Richards a Rhodri Richards Ynysgreigiog, Elen Thomas Eisteddfa a Geraint Jenkins Cerrigaranau yn ail agos gyda'i perfformiad lliwgar yn dehongli Kenya yng nghystadlaeth 'Canllaw Bras i Mis Mèl', yn cyfleu atyniadau a diwylliant y wlad trwy fforwm dawns brodorol, actio, canu a diddanu.

Daeth Elin Jones, Alaw Aur a Sara Jenkins Tyngraig yn gyntaf yn y gystadlaeth 'Creu Deunydd Priodas' oedd yn cynnwys gwahoddiadau, trefn priodas ayyb. Byddant yn mynd ymlaen i gynrychioli'r Sir yn y Sioe Frenhinol.

Daeth llwyddiant mawr i Dal-y-bont yng nghystadlaethau barnu stoc y Rali. Yn Adran y Barnu Defaid Texel, daeth Aled Llyr yn ail fel unigolyn o dan 26, Dewi Jenkins yn ail fel unigolyn o dan 21, ynghyd â Gwion Evans Tanllan o dan 16. Daeth y tîm i'r brig yn ennill y brif safle.

Yng Nghystadlaeth Barnu Gwartheg Holstein, daeth Geraint Jenkins, Cerrigaranau yn 2il o dan 26, Richard John yn 3ydd o dan 16 ag ynghyd a Llyr Jones FelinHen daeth tîm y gwartheg godro yn bumed. Llwyddodd Geraint Jenkins Penpompredd ddod yn 2il fel unigolyn o dan 21.

Yng Nghystadlaeth Barnu Moch Cymreig, daeth y tîm - sef Aled Llyr, Dewi Jenkins, Tyngraig a Richard John Ynysgreigiog yn 2il, gyda Dewi yn dod yn 3ydd dan 21 a Richard John 6ed dan 16. Daeth Geraint Jenkins Penpompredd yn 4ydd yn unigol dan 21 a Llyr Jones Ynystudur yn 2il yn unigol dan 16.

Elgan Evans Tynant a Llyr James Penbanc fu'n cynrychioli'r clwb yn y Gystadlaeth Gneifio, daeth y ddau yn 2il fel unigolion ac yn 2il fel tîm.

Daeth Tal-y-bont yn fuddugol yng nghystadlaethau y Tablo, yn cyfleu tair golygfa 'Y Briodas Fawr' - un o helyntion a drygioni noson cyn priodas wledig, yr ail tu allan y capel gyda bwa ffyrch traddodiadol y CFFI a'r trydydd yn cyfleu golygfa o Mis Mèl ar y traeth. Y tîm tablo oedd Dewi Jenkins, Tyngraig, Geraint Jenkins Penbompren, Elgan Evans Tynant, Elen Thomas Eisteddfa, Sara Jenkins Tyngraig, Alwena Jenkins Ynysgreigiog, Elin Jones, Sion Evans Neuaddfawr, Gwenno Evans Tanllan a Llyr James Penbanc.

Llongyfarchiadau hefyd i Elgan Evans Tynant am dderbyn y tlws i'r Aelod mwyaf Gweithgar yn ystod y flwyddyn, mae'r pwyllgora, trafod mawr a pasio wedi talu ffordd!

Hoffem longyfarch pob aelod am eu cyfraniad i lwyddiant y Clwb. Dylid hefyd gydnabod cymorth a chefnogaeth cyn aelodau, rhieni a ffrindiau'r clwb sydd wedi gweithio'n galed yn hyfforddi a chynorthwyo gyda'r paratodai. Bydd y Rali yn cael ei westeio gan Glwb Tal-y-bont y flwyddyn nesaf a mawr obeithiwn y byddwn yn gallu dibynnu ar yr un gefnogaeth a brwdfrydedd. Mae dyddiad y parti dathlu yw gadarnhau!!! Edrychwn ymlaen at Rali TAL-Y-BONT 2013!!!

GJ

Arweinydd newydd y Cyngor

Parhad o tud 1

Iddi hi, mae'n bwysig fod pob punt sy'n cael ei gwario yng Ngheredigion yn aros yn y sir fel bod busnesau lleol yn elwa. Dyna pam yr hoffai weld cryfhau'r polisi prynu cynnyrch lleol lle mae hynny'n bosib. Wedi'r cyfan, y cyngor Sir yw'r cyflogwr mwyaf o fewn y sir, ac mae'n allbwysig, yn ei barn hi, fod y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei hollu i gryfhau'r economi trwy ddiogelu swyddi'n lleol a sicrhau cyflogaeth i bob ifanc.

Mac'n awyddus iawn i weld newid mewn un maes yn arbennig, sef maes tai. Hoffai weld rhyddhau mwy o dir sy'n eiddo i'r Cyngor fel bod Cymdeithasau Tai yn gallu codi mwy o dai fforddiadwy a thai cymdeithasol a fydd yn cael eu gosod i bobl leol yn unig. Mae'n hollbwysig, yn ei barn hi, fod teuluoedd ifanc a anwyd ac a fagwyd yn y sir yn cael cartrefi yma, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig.

Mae Ellen wedi hen arfer â chael dyddiadur llawn, ond fe fydd ei dyddiadur a'i hamserlen yn llawnach o hyn ymlaen gan y bydd angen mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau swyddogol a chyhoeddus. Ond mae'n awyddus i bwysleisio ei bod yn parhau i wasanaethu ei chymuned yn lleol fel o'r blaen. Bydd yn dal i fynychu cyfarfodydd y tri chyngor cymuned o fewn y Ward, a bydd hefyd yn parhau'n aelod o gyrff llywodraethol y ddwy ysgol. Bydd wastad ar gael, meddai, i drafod problemau ei hetholwyr yng Ngheulana Maesmawr.

Mae'n hynod falch mai un o'i dyfelyswyddau cyhoeddus cyntaf ar ôl dod yn arweinydd y Cyngor Sir oedd agor y Ganolfan Cadw Anifeiliaid newydd yn Eglodd, Tal-y-bont, menter sy'n mynd i fod o fudd i'r diwydiant amaeth yn y sir. Mae'n ymwbyddol iawn mai aelod lleol ydyw yn gyntaf, er ei bod yn gyfrifol am fuddiannau holl etholwyr Ceredigion erbyn hyn. A phan ofynnwyd iddi faint o amser a gaiff i ymlacio yng nghanol ei holl brysurdeb, dywedodd na all anghofio ei bod yn wraig ac yn fam ac yn nain, a bod ganddi wryon i ymweld â nhw. Bydd ganddi fywyd go lawn am y pum mlynedd nesaf, felly, a dymunwn bob llwyddiant iddi gyda'i gwaith.

B.O.H.

Cymdeithas Arddwriaethol Llangynfelyn

Diolch o Galon

Ar ddydd Sadwrn 12 Mai cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus yn Neuadd Llan-fach, Tre Taliesin, i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o Sioe Llangynfelyn. Mi

wnaeth pawb fwynhau'r bore
ac roedd y tywydd yn
garedig iawn i ni. Bu nifer o
stondinau yn y neuadd, gan
gynnwys planhigion,
cacennau, llyfrau, grŵp celf
Taliesin, gwaith coed lleol,
Sefydliad y Merched Llangyn
arddangos archifau'r sioe a rai



Sefydliad y Merched Llangynfelyn, Cwmni Cletwr, bwrdd yn arddangos archifau'r sioe a raffl.

Hoffem ni ddiolch i Michelle a Chris, Y Wildfowler, Tre'r-Ddôl am roi'r te a'r coffi i'r digwyddiad, pawb a helpodd ar y diwrnod, Papur Pawb am roi benthyg y lluniau ac i bawb a roddodd eitemau i'r stondinau a gwobrar i'r raffl. Diolch o galon i nifer o bobl sydd wedi gwneud cyfraniadau ariannol ac i bawb a ddaeth heibio i gefnogi'r bore.

Bydd rhestrau cyflawn a ffurflenni cais i'r sioe ar gael ac yn cael eu dosbarthu yng nghanol mis Mehefin.

Arwr yn cyrraedd y Llew Du

Mae un o arwyr mwyaf hanes Cymru wedi cyrraedd Gwesty'r Llew Du yn Nhal-y-bont - neb llai nag Owain Glyndŵr ei hun. Mae'r cerflun trawiadol wedi'i saernio o goed derw Cymreig gan y cerflunydd coed Barry Davies o Sir Drefaldwyn. Fe gymerodd Barry dros chwe mis i gwblhau'r gwaith. Yn ôl Barry "Roeddwn am greu cerflun pwerus oedd yn dangos Owain Glyndŵr fel un o'n harwyr mwyaf grymus fel cenedl". Dyma gerflun nodedig sy'n dangos llaw gywrair y cerflunydd i greu gwaith artistig trawiadol a chofiadwy. Yn ôl Siôn a Catrin bydd seremoni dadorchuddio yn cael ei gynnal yn y dyfodol. Mae'n werth ei weld - galwch draw i'r Llew Du i weld beth ydych chi'n feddwl!



NFU Mutual
INSURANCE PENSIONS INVESTMENTS

We do right by you

Yswiriant, Pensiynau, Buddsoddiadau

Am wasanaeth personol a chyfeillgar, ffoniwch ein swyddfa lleol yn Aberystwyth ar:

01970 612331

www.nfumutual.co.uk/aberyswyth

NFU Mutual is The National Farmers Union Mutual Insurance Society Limited (the Society). Registered in England. Registered Office: Telford House, Stafford Square, Birmingham City 16. For security and training purposes, telephone calls may be recorded and monitored.

argraffu da
am bris da



yl **Lolfa** holwch Paul am bris ar paul@ylolfa.com
01970 832 304 www.ylolfa.com

Cymdeithas | Arwain yr
Alzheimer's ymgyrch yn erbyn
dementia

Does yr un ohonom yn
gallu gwneud popeth, ond
gall pawb wneud
rhywbeth

**Mae angen gwirfoddolwyr arnom i helpu gyda'r
gwasanaethau lleol. Gwirfoddolwyr i sefydlu grŵp codi
arian, bod yn gyfaill, a, gan fod llawer o wahanol
gyfleoedd gwirfoddoli, mae yna rywbeth i bawb**

Mae 40,700 o bobl yn dioddef o ddementia yng
Nghymru ac mae'r ffigwr hwn yn debygol o gynyddu i
43,500 erbyn 2013

**Cysylltwch â Gill Morgan – Swyddog Gwirfoddoli
ar 01269 845953 / 07715 802632
neu e-bostio:
gillian.morgan@alzheimers.org.uk**

Elusen gofrestredig rhif 296645

Teyrnged

Margaret Rees Mair, Maesnant, Glandyfi

Ar y 10fed o Fai bu farw Margaret Mair yn 83 mlwydd oed. Fe'i ganwyd ym Mhort Talbot yn ferch i Sydney a Margaret Vaughan, ill dau yn athrawon. Mynychodd yr ysgol yno gyda Richard Burton yn gyd-ddisgybl. Graddiodd mewn Ffrangeg a Lladin ym Mhrifysgol Bangor ac yno y cyfarfu a'i gŵr Richard Bellhouse Mair! (Rob i bawb).

Ar ôl priodi yng Nghapel Carmel, Port Talbot ar y 9 Ebrill 1953 aethant i fyw ar fferm yn Sir Gaerhirfryn a chafodd waith fel athrawes. Yno ganwyd y plant Rob, Rich a Liz a phan oedd Liz yn ddwy oed symudodd y teulu i fferm arall yn y 'Yorkshire Wolds'. Yn 1972, bythefnos ar ôl genedigaeth Sara symudodd y teulu i fferm yn 'Northumberland'. Yn yr 80au cynnar daeth y teulu i Maesnant, Eglwysfach a bellach Sara yn unig o'r plant oedd adref ar yr aelwyd.

Buan iawn yr ymdaifodd Margaret i holl waith y gymuned. Roedd bore coffi yn Maesnant bob dydd iau ar gyfer yr NSPCC. Roedd yn aelod o Gyngor yr Eglwys, yn un o Lywodraethwyr Ysgol Llangynfelyn ac roedd ar Gyngor Cymuned Ysgubor y Coed. Bu'n Is – Gadeirydd Cyfeillion Ysbytai Machynlleth ac yn aelod gweithgar a Chadeirydd Sefydliad y Merched, Eglwysfach.

Cofiw'n amdani fel person hoffus, caredig, hael a pharod ei chymwynas. Roedd ei theulu yn bopeth iddi yn enwedig ei saith o wyrion. Fe ddysgodd sut i anfon negeseuon testun atynt – weithiau yn treulio awr gyfan yn cyfansoddi neges!

Mae'n gadael bwlch mawr ar ei hól yn y gymuned leol ac roedd Eglwys St Mihangel, Eglwysfach yn orlawn ar 18 o Fai gyda'i theulu a'i ffrindiau wedi dod at ei gilydd i ffwrwio gyda gwraig boblogaidd oedd yn ffrind i bawb.

Wendy Fuller

Merched y Wawr Tal-y-Bont a'r Cylch


Cynhaliwyd y Cyfarfod Blyneddol ar nos Lun, 21 Mai, ac etholwyd pum aelod newydd i'r pwyllgor. I ddilyn, bu tair o'r aelodau yn siarad ar y testun 'Dyna fel yr oedd hi yn yr oes o'r blaen'. Cafwyd darlun llawn o fywyd ym mhentref Tal-y-bont yn ystod eu plentyndod gan Ann Jenkins a Kathleen Richards wrth iddynt gofio pwy oedd yn byw yn y tai a buont yn sôn am y gwahanol siopau a'r cymeriadau a oedd yn y pentref bryd hynny. Bu Carys Briddon yn adrodd cynnwys dyddiadur ei thad-cu am y flwyddyn 1901 a roddai ddarlun o'i fywyd yng nghwm Ceulan, ei waith yng ngwaith mwy'n Esgair-hir, a'i ymdrech i ddod o hyd i waith yn y pyllau glo yn ne Cymru wedi iddo symud yno ar ddiwedd y flwyddyn.

Etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn nesaf: Llywydd: Falyri Jenkins; Ysgrifenyddion: Diana Jones a Mai Leeding; Trysorydd: Eryl Evans; Is-drysorydd: Aileen Williams; Gofalwr y Te: Myfanwy James; Dosbarthwr Y Wawr: Ann Humphreys; Gohebydd y Wasg: Carys Briddon; Aelodau o'r Pwyllgor: Elizabeth Evans a Glenys Edwards.

Cofnod Trist

Yn y rhifyn diwethaf cyflwynais ychydig o hanes R R Humphreys o Dal-y-bont a laddwyd yn y Rhyfel Mawr. Cysylltodd John Evans, Bryn Eleri, Tal-y-bont, gan iddo fod yn gyfarwydd â bedd y teulu ar safle ym mynwent y Bedyddwyr sydd union y tu cefn i ardd John. Mae'r bedd yn cofnodi rhieni R R Humphreys a fu farw yn 1922 ac 1935, ond hefyd cofnodwyd marwolaeth y mab 'a syrthiodd yn y Rhyfel mawr yn Ffrainc'. Mae'n amlwg hefyd fod cryn dipyn o dristwch yn perthyn i'r teulu oherwydd ceir cyfeiriad at 'y pump bychain', sef mae'n debyg, plant y teulu hwn a fu farw'n ifanc iawn. Diolch i John am ychwanegu at y stori drist hon.

GJ



Y Sialens Geltaidd

Bob yn ail flwyddyn cynhelir y Sialens Geltaidd, sef ras rwyfo o Arklow, ar arfordir dwyreiniol Iwerddon, i Aberystwyth. Eleni, ar benwythnos y 5ed a'r 6ed o Fai, fe'i cynhaliwyd dan rai o'r amgylchiadau anoddaf erioed. Oherwydd cyflwr garw'r môr a phroblemau gyda'r cychod cefnogi, dim ond oddeutu hanner y tri thim ar hugain orffennodd y ras. Ymysg y rhai na lwyddodd i orffen, yn anffodus, roedd tîm merched Aberystwyth, oedd yn cynnwys Carol Davies o Daliesin. Er hynny, enillodd tîm cymysg Aberystwyth glod trwy orffen yn bumed; yn eu plith roedd yr hen bennau Mick a Jenny Fothergill (Minafon, Tal-y-bont) a Dai Dowsett (Is-y-coed, Tal-y-bont) yn ogystal â'r newydd-ddyfodiad David Dawson a fydd yn symud i Dal-y-bont yn fuan gyda'i ddyweddi Carys Roberts. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran; braf oedd gweld misoedd o ymarfer caled yn talu'i ffordd.

Dai Dowsett

Bistro
Gannets

Bywd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dyfchmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON

GERAINT JAMES
Ffôn: 01970 612459
Mob: 07967235687

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL



GAREJ DAVMOR

**M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars**

Gellir llogi car, fan neu fws mini i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Ysgol Llangynfelyn

Y Gemau Olympaidd – Rydym ni'n mynd i Lundain!

Rydym yn falch iawn o fedru rhannu ein newyddion cyffrous gyda'r gymuned a darllenwyr Papur Pawb. Derbyniodd Mrs Nelmes e-bost nôl ym mis Mawrth yn gwahodd wyth o blant yr ysgol i gymryd rhan mewn 'Guard of Honour' cyn Seremoni Agoriadol y Gemau Olympaidd. Yn anffodus roedd yn rhaid i'r plant fod yn ddeg oed. Dim ond Ffion Hicks oedd ddigon hen. Felly, gadawon nhw i ni ofyn i'r plant naw oed – ond eto dim ond pedwar plentyn naw oed oedd yn yr ysgol. Ar ôl i Mrs Nelmes esbonio ein bod yn rhannu'r un Pennaeth gydag Ysgol Tal-y-bont, medrodd hi wahodd pedair o blant hynaf Ysgol Tal-y-bont i'r digwyddiad. Felly bydd Ffion Hicks, Willow Celik, Milly Hughes a Mabli Rose o Ysgol Llangynfelyn a Lecsi Taylor, Gemma Burnham, Emily Sweeney a Celyn Evans o Ysgol Tal-y-bont yn teithio i Lundain gyda Mrs Nelmes a Miss Jones ar fore Gwener Gorffennaf 27ain. Byddwn yn cyrraedd y Parc Olympaidd gyda 2000 o blant eraill cyn cael taith tywys o'r Parc. Byddwn yn cael gweithgareddau a bwyd yn y Stadiwm 'Handball' cyn cerdded i du allan y Stadiwm Olympaidd. Bydd y plant yn croesawu'r athletwyr cyn iddynt fynd i mewn i'r Seremoni Agoriadol. Rydym yn cefnogi Denmarc a byddwn yn chwifio baner arbennig i Ddenmarc. Byddwn yn gadael y Parc Olympaidd a theithio nôl i'r gwesty yn hwyr iawn. Dim ond 56 o blant trwy Gymru sydd wedi cael eu dewis. Rydym yn teimlo'n gyffrous iawn am y digwyddiad hwn a byddwn yn medru rhannu gyda chi ein profiadau yn y rhifyn nesaf o Bapur Pawb.

Gweithdy Olympaidd

Ar fore Dydd Gwener Mai 25ain daeth Jeff Hallett o'r Gemau Olympaidd yn Llundain atom i gynnal Gweithdy Olympaidd. Dangosodd ffilm am y Ffagl Olympaidd i'r plant ac esboniodd ei hanes. Bu'r plant yn brysur iawn yn creu coronau Olympaidd ac offerynnau Olympaidd i groesawu'r Fflam Olympaidd i Taliesin. Pleser hefyd oedd gwahodd Lecsi, Celyn, Emily a Gemma atom i'r Gweithdy. Gweithiodd y plant yn galed iawn ac roedd Jeff yn canmol eu gwaith creadigol yn enwedig yr addurniadau Olympaidd ar y ffens tu allan yr ysgol.

Y Fflam Olympaidd

Ar fore Llun Mai 28ain, pasiodd y Fflam Olympaidd heibio'r ysgol. Roedd y plant yn aros yn barod tu allan i'r ysgol am naw o'r gloch gyda'i fflaglau a'u hofferynnau. Gwisgodd llawer mewn gwisgoedd o wledydd gwahanol. Mawr oedd y cynnwrf yn aros i'r Fflam. Mwynhaodd y plant sesiwn hwyl gyda gweithwyr Banc Lloyds a chael rhubanau i chwifio. Daeth y 'convoy' cyntaf heibio ac yn sydyn gwelwyd Caryl Davies o Lambed yn rhedeg lawr y ffordd yn cario'r Ffagl. Trosglwyddwyd y fflam i Caroline Orrells o'r Drenwydd ac i ffordd â hi am gyfeiriad 'Banana Island' Tre'r Ddôl. Daeth plant Ysgol Craig yr Wylfa atom i weld y Fflam yn pasio ac wedi'r digwyddiad aeth pawb yn ôl i'r ysgol am bïcnic a hufen-ia. Buom yn ffodus iawn nes ymlaen yn y bore, pan ddaeth Caryl Davies nôl i'r ysgol gyda'i Ffagl. Dangosodd y Ffagl i'r plant a chafodd y plant a'r staff eu llun gyda'r Ffagl. Roedd yn fore arbennig iawn i'r plant a rhywbeth rwy'n siŵr y byddant yn cofio am byth pan ddaeth y Ffagl Olympaidd heibio Ysgol Llangynfelyn!

Staff Newydd

Croesawn Lisa Roberts atom i'r gegin. Mae Mrs Jen Jones yn Ysgol Tal-y-bont yn coginio'r cinio ac mae Lisa'n gyfrifol am fynd i Ysgol Tal-y-bont i nôl y bwyd a'i weini wedyn nôl yn yr ysgol. Mae Lisa hefyd wedi dechrau glanhau yn yr ysgol gan fod Shelley Foulkes newydd ddechrau ei chyfnod mamolaeth. Estynnwn ein dymuniadau gorau i Shelley a'r teulu.

Rali Ceredigion

Llongyfarchiadau mawr iawn i Miss Siwan Jones am gael ei dewis i fod yn un o forynion i'r Frenhines yn Rali Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion yn Llanwnnen. Mae Siwan yn aelod ffyddlon o Glwb Ffermwyr Ifanc Troedyrour.

Râs Noddedig

Diolchwn yn fawr iawn i Rachel Bean, mam Jasmine, am gymryd rhan mewn Ras Noddedig yn Nolgellau yn ddiweddar. Rhedodd Rachel 6km a chododd £100 i'r ysgol.

Ymweliad â Denmarc

Aeth rhai o staff yr ysgol ar ymweliad i Kolding yn Nenmarc ym mis Mai. Dyma ymweliad olaf ein Prosiect Comenius. Ymwelon nhw ag amryw o ysgolion gwahanol yn ardal Kolding. Dangoson nhw ffilm a wnaeth plant Ysgol Llangynfelyn yn esbonio pa gemau maent yn chwarae amser chwarae a ffilm wedi'i animeiddio o stori newydd o'r enw 'Irgedewa'. Mae'r stori yn gyfuniad newydd o chwedlau traddodiadol o Gymru, yr Almaen, Denmarc ac Iwerddon. Dewisodd Ysgol Llangynfelyn chwedl Taliesin. Crëodd y plant bypedau o'r cymeriadau a gyda chymorth Mrs Nelmes, gwnaethon nhw'r ffilm.

Cyngerdd y Gwasanaeth Cerdd

Aeth holl ddisgyblion yr ysgol i Neuadd Goffa Tal-y-bont i weld cyngerdd gan athrawon peripatetig Gwasanaeth Cerdd Ceredigion. Mwynhaodd y plant yn fawr iawn.

Ras Feiciau Halfords

Aeth deuddeg o blant o Flynyddoedd 2 i 5 i Aberystwyth i gymryd rhan yn Ras Feiciau Halfords. Ar brynhawn crasboeth cymeron nhw ran mewn dair ras i blant o dan 8, 10 a 12 oed. Er na enillodd neb eu ras cawson nhw brynhawn arbennig. Diolchwn i Louise Halestrap, mam Ruby a Katy am gydlynur trefniadau ac i'r rhieni am fynd â'r plant i Aberystwyth.

Perfformiad Guto Nyth Brân

Ar yr un prynhawn aeth gweddill plant Blynnyddoedd 2 i 5 i Theatr y Werin i weld perfformiad Arad Goch o 'Guto Nyth Brân'. Roedd yn sioe wych gyda'r plant wrth eu bodd gyda'r stori, y cymeriadau a'r gerddoriaeth.

Bags2School

Bydd ein casgliad Bags2School yn mynd ar fore Gwener Mehefin 15fed. Os oes gennych unrhyw hen ddillad, dillad gwely, esgidiau, blancedi neu lenni – mae croeso i chi eu gadael yn yr ysgol mewn sachau biniau du neu sachau clir ail-gylchu cyn y dyddiad. Rydym yn cael arian i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am bob kilogram o ddillad rydym yn casglu.

Mabolgampau

Bydd ein mabolgampau am 1 o'r gloch ar brynhawn Ddydd Llun Mehefin 25ain neu Ddydd Mawrth 26ain os fydd hi'n bwrw glaw. Mae croeso i bawb a bydd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn gwerthu lluniaeth a hufen ia.



Storfa Canolbarth Cymru

STORFA DODREFN

STORFA FUSNES ARCHIFAU

STORFA I FYFYRWYR

PACEDU

**DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR • CCTV
WEDI GYNHESU • CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS**

www.midwalesstorage.co.uk
Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
Ffôn: 01654 703592



Y Gemau Olympaidd – Rydyn ni'n mynd i Lundain!



Y Fflam Olympaidd



Ras Feiciau Halfords



Sefydliad y Merched Eglwysfach

Aelodau a ffrindiau Sefydliad y Merched Eglwysfach yn mwynhau yr heulwen yng ngerddi Aberglasney ar yr 20fed o Fai.



Canolfan Gasglu Erglodd

Daeth dros gant o ffermwyr i agoriad swyddogol y Ganolfan Gasglu Anifeiliaid newydd yn yr Erglodd, Taliesin ar 16 Mai. Arweinydd newydd Cyngor Sir Ceredigion, y Cynghorydd Ellen ap Gwynn gafodd yr anrhydedd o'i agor a phwysleisiodd bwysigrwydd y ganolfan i ffermwyr lleol yn ogystal ac i'r ardal ehangach. Gyda'r pwyslais fwy fwy ar iechyd a lles anifeiliaid a lleihau'r amser i'w cludo mae cael cyfleusterau hwylus fel hyn yn bwysig i'r economi leol yn ogystal ac i'r gymuned amaethyddol.

Cafwyd anerchiad gan Prys Morgan a John Draccup o gwmni Welsh Country Foods a Vion yn ogystal â Sion Aron o Hybu Cig Cymru. Trafodwyd y rhagolygon ar gyfer y diwydiant defaid a biff yn ystod y flwyddyn nesaf a chafwyd arddangosiad torri cig oen. Pwysleiswyd bwysigrwydd darparu'r hyn mae'r cwsmer yn gofyn amdano. Diddorol oedd gweld fel mae newidiadau cymdeithasol yn gorfodu newid yn y diwydiant wrth i'r galw gynyddu am gig gyda bron dim braster arno a darnau cig y gellir eu coginio'n hawdd ac yn sydyn. Cynhaliwyd cystadleuaeth barnu ŵyn tew a diweddwyd y noson gyda lluniaeth ysgafn i bawb.

Mae Hugh Rowlands yn cyflenwi anifeiliaid i Welsh Country Foods ers pedair blynedd bellach ac ers pymtheg mlynedd i ladd-dy yn Birmingham ac mae'n brynwr amlwg mewn marchnadoedd lleol.

Carai Hugh, Mair a'r teulu ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ar y noson ac i ffermwyr lleol am eu cefnogi dros y blyneddau. Dymuniadau gorau iddynt fel teulu yn eu menter newydd.



Ysgol Sul Bethel

Fore Sul, 13 Mai, cynhaliwyd Gymanfa Ganu Ysgolion Sul Gogledd Ceredigion ym Methel, Tal-y-bont.

Ysgol Sul Bethel gafodd y fraint o gychwyn yr oedfa. Paratowyd tair eitem ganddynt ar y thema 'Iesu'r Brenin' gyda Bedwyr Siencyn yn cyfeilio ar yr Iwffoniwm. Diolch i Bedwyr, Glain, Heledd, Beca, Eli, Miri, Heddwyn, Dyfri, Ynyr, Efa a Glain fach am wneud eu gwaith mor raenus.

Gwnaeth Bedwyr gymaint o argraff ar yr arweinydd Mr Alan Wynne Jones fel iddo ei wahodd wedyn i gyfeilio i'r gynulleidfa gyfan!

Gwella'r Gwellau

Mae Dewi Jenkins, Tynygraig Tal-y-bont wedi dychwelyd o Seland Newydd ar ôl treulio pedwar mis yno yn miniogi ei grefft fel cneifiwr. Ym mis Tachwedd y llynedd aeth Dewi gyda chriw o gneifiwr eraill o Geredigion i weithio ar ffermydd y wlad sy bron mor enwog â Chymru am ei chig oen. Hedfanodd Dewi o Heathrow ac ar ôl taith o dair awr ar hugain glanio yn Auckland, Ynys y Gogledd. Ymunodd y criw a saith deg o gneifiwr contract a mynd i dref Napier rhyw awr o Auckland. Dyma un o ganolfannau'r ffermydd defaid - rhai ohonynt yn enfawr gyda diadell o dros 30,000. Mae'r fferm fwyaf yn Seland Newydd yn cadw 60,000 o ddefaid gyda Chymro o'r Bala yn reolwr. Ond yn wahanol i



Gymru does 'na ddim tymor cneifio ac mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen drwy gydol y flwyddyn. Ar adeg ymweliad Dewi roedd hi'n ganol haf a'r dasg o gneifio yn digwydd yng ngwres yr haul. Gwaith poeth a chwyslyd felly ac fe fyddai Dewi a'i gyfeillion yn cneifio am wyth awr y dydd. Roeddent yn gweithio i gontractwyr ac roedd Dewi'n esbonio nad

oedd y ffermwyr yn cneifio o gwbl - eto gwahanol iawn i Gymru. Y cyfan a wnâi'r perchnogion oedd paratoi'r siediau a'r offer gyda'r cneifiwyr a'r lapwyr yn byw yn y trefi ac yn teithio o fferm i fferm.

Roedd y defaid hefyd yn wahanol - defaid Romney sy'n enwog am eu gwlan. Mae'r cnu cyrliog dros y ddafad i gyd, y corff, y pen a'r coesau ac o'r herwydd mae'r dasg o gneifio yn anos ac yn hirach o ran amser. Mae'r Romney yn ddafad drom ac ar derfyn diwrnod cynnes byddai Dewi wedi blino ac yn sicr wedi ennill ei bres. Mae ansawdd gwlan y Romney yn dda a'i bris yn uchel a rhaid cymryd gofal i gael y gorau o bob cneifiad. Fel y gwelwyd yn y Sioe yn Llanelwedd mae Seland Newydd yn enwog am ei chneifiwyr ac yn ôl Dewi nhw yw'r gorau yn y byd wrth y gwaith. Dyna'r rheswm yr aeth Dewi yno - i ddysgu sut i ddal y ddafad, dysgu sut i weithio'n gyflym a chywir a dysgu am beth mae e'n alw'n *blows* sef cyfeiriad a thyfiad y gwlan ar gorff y ddafad. Ei fwriad nawr yw cystadlu mewn cyfres o sioeau drwy dymor yr haf gan gychwyn ym Mehefin yn Sioe Llysfasi.

Nid gwaith oedd y cyfan ac fe gafodd Dewi gyfle i ymlacio a theithio i Ynys y De. Roedd i ffwrdd dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd ac fe fu'n dathlu yng nghwmni ei gyd Gymry, nid trwy fwyta twrci ond mewn barbiciw ar un o draethau Ynys y De. Mae'n siŵr mai cig oen oedd ar y fwydlen!

Daeth adre o un haf i un arall wedi rhoi min ar y gwella ac yn barod am dymor siar o gystadlu. Croeso nôl Dewi a phob hwyl yn y sioeau!

GIE



Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc?
- Eisiau hysbysebu gweithgareddau plant a phobl ifanc?

Cysylltwch â ni am fanylion pellach

Ffôn/Phone: 01545 574187 E-bost: cis@ceredigion.gov.uk

Gwefan: <http://cis.ceredigion.gov.uk>

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron,
Ceredigion, SA46 0PA

Cyngor Cymuned Llangynfelyn

Cynhaliwyd y cyfarfod blyneddol ar nos Lun, 14 Mai, a'r materion yn codi o'r cyfarfod oedd yr ysbwriel sy'n dal i gael ei adael wrth y bin ailgylchu wrth yr ysgol: mae hyn yn hollol annerbyniol gan fod canolfan ailgylchu i'w gael gan y Cyngor. Hefyd y pryderon ynglŷn â pharcio cerbydau ar yr ynys ger Craig y Penrhyn pan fo'r farchnad yn Nhre'r-ddôl ar y Sul. Penderfynwyd gofyn i'r heddlu gadw llygad ar hyn.

Y Cadeirydd am y flwyddyn nesaf yw Mrs Anwen Haynes, a thrafodwyd y canlynol yn y cyfarfod misol a ddilynodd:

- Gwnaed cais ar gyfer cael grant i wneud gwaith angenrheidiol ar lwybrau cyhoeddus yr ardal;
- Mae coed wedi cwympo ar lwybr yr arfordir ar draws y gors, ac adroddir hyn i'r adran berthnasol;
- Wrth drafod problem baw cwn yn yr ardal, trafodwyd yr awgrym o enwi a chywilyddio'r perchnogion fel sy'n digwydd mewn cyngor cymuned arall;
- Prynwyd mygiau i ddathlu'r Jiwibili gan y Cyngor Cymuned a chaiff rhain eu dosbarthu i holl blant y plwyf sydd o dan ddeunaw oed yn y Te a drefnir gan Sefydliad y Merched;
- Mae un sedd wag ar y Cyngor Cymuned.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 11 Mehefin 2012.

Glanrafon

**Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT**

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM Ffôn: 01970 636774

**Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

*Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

**Cawod Defaid Symudol
ARTHUR MORGAN**

Dosbarthwn a gwaredwn 'dip defaid'

Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292

Salon Leri

*Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard*

Pedicure a Manicure
10am-7pm
Llun-Guener

(01970) 832 674

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o Gyfarfod Blynyddol a chyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd nos Lun 14 Mai 2012.

Croeso'r Cadeirydd

Estynnodd y Cadeirydd, y Cyngorydd Eric Roberts, groeso cynnes i bawb i'r Cyfarfod Blynyddol – yn enwedig y ddau aelod newydd, sef y Cyngorydd David Evans a Bleddyn Huws. Hefyd dymunodd yn dda i'r Cyngorydd Ellen ap Gwynn ar gael ei haillethol yn Gyngorydd Sir Ward Ceulanamaesmawr a'i hethol yn Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion.

Swyddogion Newydd

Etholwyd y Cyngorydd Emyr Davies yn Gadeirydd, a'r Cyngorydd Enoc Jenkins yn Is-gadeirydd, am y flwyddyn 2012/13.

Aelodaeth yr Is-bwyllgorau 2012/13

Etholwyd yr aelodau canlynol i wasanaethu am y flwyddyn ar Is-bwyllgorau'r Cyngor: a) Ariannol: y Cyngorydd Rhian Evans, Gerwyn Jones a Bleddyn Huws; b) Y Fynwent: Y Cyngorydd Nest Jenkins, Enoc Jenkins a David Evans. Bydd y Cadeirydd, y Cyngorydd Emyr Davies, a'r Clerc yn aelodau o'r ddau Is-bwyllgor uchod yn rhinwedd eu swyddi. Cytunwyd i barhau gyda'r trefniant bod pob Cyngorydd yn aelod o'r Is-bwyllgor Cynllunio.

Cyfrifon 2011/12

Cyflwynodd y Clerc adroddiad o sefyllfa ariannol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Roedd derbyniadau'r Cyngor yn £24,169.24 yn cynnwys yr arian wrth gefn ar ddiwedd Mawrth 2011. Prif ffynonellau'r incwm oedd a) Archebiant (£12,000); Ad-daliad Costau'r Fynwent 2010/11 (£2,372.94); c) Ffioedd y Fynwent (£323.50); ch) Ad-daliad TAW (£910.12). Hefyd derbyniwyd swm o £3,000 ym mis Hydref, sef Cymynrodd y diweddar Dr Iestyn Watkin, Y Tŷ Gwyn, Aberystwyth. Cyfanswm y costau am y flwyddyn oedd £15,794.49. Y prif daliadau oedd a) Cymorthdaliadau (£3,875); b) Gweinyddol (£3,532.33); c) Cynnal a Chadw'r Fynwent (£2,572.38); ch) Costau Cynnal a Chadw gweddill eiddo'r Cyngor (£1,842.99); d) Yswiriant (£1,129.25); dd) TAW (£1,029.98); e. Biniau Halen (£650); f) Goleuadau Nadolig (£618.24). Derbyniwyd y cyfrifon fel rhai cywir a chytunwyd fod y Cadeirydd a'r Clerc yn eu harwyddo.

Sylwadau'r Cadeirydd

Cyn ymadael â'r gadair, cyflwynodd y Cadeirydd, y Cyngorydd Eric Roberts rai sylwadau am ei dymor yn y swydd. Nododd fod presenoldeb yr aelodau i'r cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn dros 75%. Trafodwyd 18 o geisiadau cynllunio, ond dim ond chwech o'r ceisiadau hyn oedd yn rhai i godi tai newydd (gan gynnwys un am 4 cartref fforddiadwy ym Maes-y-deri ac un am 3 thŷ ar bwys Glas-y-ddôl). Roedd gweddill y ceisiadau'n amrywio o estyniadau, mân welliannau a datblygiadau bychan i gynhyrchu ynni adnewyddol. Ymhlith y prif faterion gafodd sylw yn ystod y flwyddyn roedd y cais i godi tai fforddiadwy ym Maes-y-deri, cydweithio gyda Digby Bevan, Hwylusydd Tai Gwledig Ceredigion, i gynnal arolwg o anghenion tai yn lleol, ac ymgychu i ddiogelu gwasanaethau yn Ysbyty Bronglais. Wrth gloi, talodd ddolch diffuant i aelodau'r Cyngor ac i'r Clerc am eu cefnogaeth barod iddo yn ystod ei dymor, a dymunodd yn dda i'w olynydd, y Cyngorydd Emyr Davies.

Yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol, cynhaliwyd cyfarfod mis Mai o'r Cyngor. Ar ôl croesawu'r aelodau newydd diolchodd y Cadeirydd, y Cyngorydd Emyr Davies, i'w ragflaenydd, y Cyngorydd Eric Roberts, am ei holl waith yn ystod ei dymor yn y gadair. Hefyd llongyfarchodd y Cyngorydd Ellen ap Gwynn ar gael ei haillethol i gynrychioli Ward Ceulanamaesmawr ar Gyngor Ceredigion ac ar ei dyrchafiad yn Arweinydd y Cyngor Sir.

Cynllunio

Cytunwyd i anfon at yr Adran Gynllunio yn croesawu'r cais i godi un twrbîn gwynt ar dir Maesnewydd.

Archwiliad Cynllun Datblygu Lleol

Adroddwyd fod dyddiad sesiwn yr Archwiliad fydd yn ymwneud â safleoedd ym mhentref Tal-y-bont wedi ei symud i 4 Medi 2012. Y rheswm dros y newid yw fod Arolygydd y Cynllun Datblygu Lleol wedi gofyn i Gyngor Ceredigion 'wneud rhagor o waith i oresgyn rhai o'r pryderon... o ran y Strategaeth Dai'. Yn sgil etholiad y Cyngorydd Ellen ap Gwynn yn

Y Gair Olaf



Daw papur dyddiol Lerpwl yma yn blygeiniol bob bore heblaw'r Sadwrn a thra wrth frecwast rhoddaf gip brysiog ar y dudalen flaen cyn troi i'r cefn a golwg ar y gair olaf. Hanes tîm pêl-droed Lerpwl neu Everton y rhan mwyaf, er nad wyf yn gefnogwr brwd i'r un ohonynt.

Ar fore Llun yn ystod tymor pêl-droed chwilio trwy'r tudalennau ôl am hynt a helynt tîm pêl-droed y dre ond ofnaf mai cyffredin iawn fu eu chwarae y tymor diwethaf.

Bob bore Mercher daw'r *Cambrian News* trwy'r drws ac mae'r un arferiad yn berthnasol i'r wythnosolyn. Edrych yn fanwl trwy'r gair olaf ar y cefn am adroddiadau chwaraeon pêl-droed lleol cyn diwedd ei ddarlenn ar y dudalen gyntaf.

Ar fore Sadwrn prynir *Y Cymro*, ond yn wahanol i'r ddau arall darllen o'r dudalen flaen yw'r drefn gan ddiwedd gyda'r gair olaf yn y cefn. Dyma wythnosolyn sy'n dathlu pen-blwydd yn wythdeg oed eleni ac mae'r achlysur yn f'atgoffa i mi fod yn aelod o Glwb Plant y Cymro gyda'r rhif 936 a derbyn tystysgrif i dangos f'aelodaeth yn nhridegau cynnar y ganrif ddiwethaf.

Tybed a oes yna ddarlennwyr yn cofio bod yn aelod o'r Clwb yma?

'Rwyf hefyd yn derbyn *Y Tyst* bob wythnos, darllen hwn hefyd gan ddiwedd gyda'r gair olaf yn y cefn. Wythnosolyn yr Annibynwyr Cymraeg gan drin a thrafod ystod eang o faterion berthnasol i'r enwadau. So dyna ni, Nage! Nage!

Beth yn y byd sydd wedi digwydd i'r gair Cymraeg FELLY?

Felly dyna ni, dyna'r Gair Olaf.

Goronwy Jones

Gofal Traed Aber

Ceiropodydd • Podiatrydd Cofystredig gan yr H.P.C.

- Triniaethau ar ewinedd a chyrn
- Llawdriniaeth ar gasewinedd
- Triniaeth/asesiad arbenigol ar draed diabetig
- Gwadnau ac asesiad biomechanyddol

Triniaeth yn y cartref ar gael

Galwch Shân Jones neu Richard Ellison **01970 617269**
4, Y Porth Bach, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AR



Arweinydd y Cyngor Sir, cytunwyd y byddai'r Cyngorydd Gerwyn Jones a'r Clerc yn cynrychioli safbwynt y Cyngor yn y gwrandawriad.

Mynediad Dôl Pistyll

Derbyniwyd llythyr gan un o drigolion y gymuned yn tynnu sylw at y ffaith nad yw rhai gyrwyr yn aros wrth ddod allan o Ddôl Pistyll i ymuno â ffordd Plas Penmpren. Mae'n debyg nad yw rhai gyrwyr yn deall pwys ystod y hawl tramwy. Cytunwyd i gysylltu â'r Adran Ffyrdd yn gofyn iddynt weithredu er diogelwch pawb. Yn y cyfamser, cytunwyd mai doeth fyddai anfon llythyr at drigolion Dôl Pistyll yn gofyn iddynt yrru'n ofalus ger y fynedfa.

Problemau Parcio

Tynnwyd sylw'r aelodau at y problem a wynebair o bryd i'w gilydd wrth droi o'r briffordd i ffordd Bont-goch/Nant y moch ger y Patshyn Glas, gan fod cerbydau'n cael eu parcio ar ddwy ochr y ffordd ac felly'n culhau'r llwybr. Hefyd, mae cerbydau'n aml yn cael eu parcio mewn man peryglus iawn ar y tro ger Gwesty'r Llew Du. Cytunwyd i ysgrifennu at Gyngor Sir Ceredigion gan y bydd y pwerau i gyfyngu ar barcio drwy'r sir yn cael eu trosglwyddo iddynt hwy o'r 4 Mehefin ymlaen.

CHWARAEON



Digwyddodd, darfu, megis seren wib

Braf a chyffrous oedd gweld lluo o bobl yn tyrru o'u tai yn Nhal-y-bont i gefnogi Danielle Pryce ac yn Nhre Taliesin i gefnogi Caryl Davies o Lanbedr Pont Steffan fore dydd Llun 28 Mai wrth iddynt gario'r fflam Olympaidd drwy'r pentrefi.



Siom ar y Naw



Gôl-geidwad Tal-y-bont, Callum Pritchard, yn arbed, gyda Sam Ebenezer yn ei gynorthwyo.

Siom ar y naw – yn llythrennol- gafodd bechgyn Tal-y-bont yn rownd derfynol Cwpan Cysur Cynghair Aberystwyth a'r Cylch, gan iddynt gollu o naw gôl i ddim yn erbyn Llanilar.

Chwaraewyd y gêm ar noson ganol Mai braf ond oer ar faes Penrhyn-coch. Am ugain munud roedd Tal-y-bont llawn cystal â'u gwrthwynebwyr o adran gyntaf y gynghrair. Tarodd Wyn Hopkins y trawst ac roedd addewid fod hon am fod yn ffeinal cystadleuol. Yna, ganol yr hanner cyntaf, ildwyd pedair gôl mewn llai na deg munud, gan roi terfyn ar obeithion Tal-y-bont. O hynny ymlaen, gyda Llanilar yn feistri corn ar y chwarae, roedd angen i Dal-y-bont ddangos cymeriad wrth wrthsefyll ymosodiad ar ôl ymosodiad. Ildwyd pum gôl arall cyn y diwedd a rhaid oedd cyfaddef fod Llanilar yn llawer gwell tîm ar noson siomedig iawn i fechgyn Tal-y-bont.

Prosiect Cyffrous

Mae gan *Bapur Pawb* gasgliad da o'r hen ffotograffau a gyhoeddwyd gan y papur dros y blynyddoedd. Diolch i Hefin Llwyd, mae'r cyfan o'r lluniau (dros ddwy fil ohonynt) wedi'u cadw'n ddiogel mewn bocs mawr. Maent yn dyddio 'nôl i flynyddoedd cynnar y papur yn yr 1970au hyd y cyfnod pan dynnwyd ffotograffau gyda chamerau digidol.

Mae'n fwriad nawr i ddigido'r ffotograffau hyn mewn cydweithrediad â Culturenet Cymru, prosiect sydd wedi'i leoli yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Bydd llawer o'r ffotograffau yn cael eu sganio dros yr haf ac fe fyddant wedyn yn cael eu gosod ar wefan Casgliad y Werin (<http://www.casgliadywerincymru.co.uk/>).

Yn yr hydref byddwn yn cynnal digwyddiadau pryd y bydd cyfle i chwi'r darllenwyr ein cynorthwyo i adnabod pwy neu beth sydd yn y ffotograffau hanesyddol hyn.

Yn ystod dyddiau cynnar *Papur Pawb*, roedd rhai o'r lluniau'n cael eu cyflwyno i'r sawl oedd yn y llun, felly mae'n debyg fod y lluniau hyn ym meddiant rhai ohonoch chi. Os felly, byddem yn falch iawn o'u cael ar fenthg er mwyn eu digido fel rhan o'r prosiect. Fe ddychwelwn y lluniau gwreiddiol yn ôl i chi wedi hynny. Rhowch wybod i'r golygydd cyffredinol, os gwelwch yn dda.

GJ



Gôl-geidwad Llanilar yn arbed wrth draed Barry Southgate yn un o ymosodiadau prin Tal-y-bont.

Prosiect Papur Pawb

Mae'r prosiect ar y chwith yn chwilio am berson i sganio ffotograffau hanesyddol Papur Pawb dros gyfnod penodol yn ystod yr haf.

Bydd disgwyl i'r sawl a benodir fod â llygad da ac yn gyfarwydd â defnyddio cyfrifiaduwr.

Telerau i'w trafod

Cysylltwch â'r Golygydd Cyffredinol
(golygydd@papurpawb.com)

Gŵyl Pêl-droed Talybont

Maes Chwarae, Cae'r Odyn Galch, Talybont a'r Cylch



Dewis Lwcus £1 yr un Gwobrau | £100 | £50 | £25

Noddwyd gan: Kelly Milverton Senses Beauty, Rhian Mobile Hairdressing, Anthony Foulkes, Owain Jones

Bydd bwyd ar gael ar y maes

Dan 7 | Dan 9 | Dan 11

Dechrau 10am

Oedolion **£1**

23/6/12

